

Addysg ac Astudiaethau Plentyndod

Amser - 1.5 awr

Atebwch ddau gwestiwn

1. Dylai plant ddilyn maes llafur wedi'i seilio ar chwarae tan eu bod yn 7 oed. Trafodwch fanteision ac anfanteision y datganiad hwn.
2. Mae gan rieni a theulu ran bwysig i'w chwarae mewn addysg, a dylid eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau mewn ysgolion. Trafodwch a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn.
3. Mae ysgolion yn gallu cael dylanwad ar gynnwys pecynnau cinio'r plant. Trafodwch y dadleuon sy'n codi yn gysylltiedig â'r mater hwn.
4. Dylai cynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol fod yr un peth i holl wledydd y Deyrnas Gyfunol (Cymru, Lloegr, Yr Alban, a Gogledd Iwerddon). Trafodwch y prif faterion llosg sydd ar y naill ochr a'r llall yn y ddadl hon.
5. Cyflwynwch achos o blaid cynnwys pwnc neu destun yn y Cwricwlwm Cenedlaethol nad yw yno ar hyn o bryd? Rhaid ichi gyfiawnhau eich dewis.
6. Asesiad gan athro neu athrawes ddylai benderfynu ar y graddau terfynol y mae disgybl yn eu cael yn yr ysgol yn hytrach na gwaith cwrs ac arholiadau ffurfiol. Trafodwch a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn.
7. Amlinellwch gryfderau a gwendidau dysgu grwpiau cymysg o ran oed.
8. Llythrennedd a Rhifedd yw'r pynciau pwysicaf mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Trafodwch a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn.
9. Ydych chi'n meddwl y dylai bechgyn a merched gael eu dysgu ar wahân mewn rhai pynciau penodol? Pam?
10. Trafodwch y dadleuon o blaid ac yn erbyn ailgyflwyno ysgolion gramadeg.